**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**3/10/2017**

**Presennol: Heledd Jones** (Cadeirydd), Alwyn E Jones (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**1753** **Croesawyd** pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Karl Jones ac Alan Jones Evans.

**1754** **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

**1755** **Buddiant:** Ni dderbyniwyd datganiadau buddiant.

**1756** **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 5 Medi 2017.

**1757** **Materion y Clerc** Trefnir Noson Goffi'r Cyngor gan is-bwyllgor ar gyfer Ionawr 2018. (Aelodau: Heledd Jones, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Bethan Edwards)

**1758** **Is bwyllgor y Fynwent:** Cafwyd trafodaeth ar Agenda'r is-bwyllgor a fydd yn cyfarfod ar 30/10/17 a rhaglen waith y fynwent.

**1759** **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd ymddiheuriad y Cynghorydd Sir.

**1760** **Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru**: Derbyniwyd adroddiad Huw P Roberts a soniodd am Strategaeth Bwrdd Betsi Cadwaladr dros y ddeng mlynedd nesaf, trefniadau oherwydd ymddeoliad yr Archwilydd Mewnol, hyfforddiant ardal ar ddementia a materion eraill.

**1761** **Materion Eiddo'r Cyngor:** Gofynnwyd i Karl Jones edrych ar y gwaith sydd angen i'w wneud ar y fainc ar lwybr y Garth.

**1762** **Materion ariannol:** Derbyniwyd adroddiad llawn o'r sefyllfa ar ôl hanner blwyddyn a diolchwyd i'r Swyddog Ariannol am ei baratoi. Rhoddwyd yr hawl i'r Swyddog Ariannol wneud mân daliadau yn ystod y mis ac e-bostio crynodeb o'r taliadau at yr aelodau o flaen cyfarfod o'r Cyngor, i'w cymeradwyo yn y cyfarfod.

**1763** **Materion lleol:** Nid oedd materion gan aelodau'r Cyngor Cymuned heblaw am ailadrodd siom ar safon torri'r gwair ar ochr y ffordd eleni, ac enwi rhai ffyrdd na chafwyd eu torri o gwbl.

Trafodir trefniadau addurno at y Nadolig yn y cyfarfod nesaf.

**1764** **Partneriaeth Penllyn**: Derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr a soniodd am welliannau i'r Henblas a thrafodaethau ar doiledau cyhoeddus Y Bala.

**1765 Gohebiaeth:**

1. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Ni ddaeth ceisiadau i law.

2. **Llywodraeth:** Cafwyd trafodaeth ar yr Adolygiad o Gynghorau Cymuned a Thref. Cytunwyd i roi mwy o ystyriaeth i'r mater yn y cyfarfod nesaf.

3. **Gwynedd:** Ymatebwyd i'r cais am enw cynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol O M Edwards.

4. **Un llais Cymru:** Ystyriwyd y rhaglen hyfforddi a chytunodd Heledd Jones i fynychu hyfforddiant ar 18/10/17.

*Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 7/11/17 yn y Neuadd Bentref*